

Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 a thu hwnt

Diben

1. Diben y papur hwn yw rhoi trosolwg o'r rhagolygon ar gyfer cyllidebau Llywodraeth Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a sut mae hyn wedi dylanwadu ar Gyllideb Ddrafft 2017-18 sydd i'w chyhoeddi ar 18 Hydref.

Cyd-destun Ariannol

2. Gosodwyd cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2016-17 i 2019-20, gyda chyllideb cyfalaf am flwyddyn arall hyd 2020-21, gan yr Adolygiad o Wariant a gynhaliwyd yn 2015. Er bod y setliad yn cynrychioli cymysgedd negyddol a chadarnhaol o gyllid canlyniadol drwy fformiwla Barnett, yr effaith net gyffredinol ar gyllideb Cymru oedd gostyngiad pellach mewn termau real hyd ddiwedd y degawd.
3. Yng Nghyllideb mis Mawrth, adolygodd Llywodraeth y DU y cynlluniau gwariant a gyhoeddwyd ganddi yn yr Adolygiad o Wariant. Arweiniodd hyn at gynnydd bach mewn arian parod i Gyllideb Cymru dros y pedair blynedd nesaf ond ni fu newid o ran toriadau pellach mewn termau real i gyllideb Cymru ar gyfer y tymor hwn. Yn 2019-20, bydd cyllideb gyffredinol Cymru 9% yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2010-11. Mae hyn yn gyfystyr â bron £1.5 biliwn yn llai mewn termau real i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yn 2019-20 nag oedd ar gael yn 2010-11.
4. Er bod Cyllideb mis Mawrth wedi pennu'r cwmpas ariannol am y pedair blynedd nesaf, daeth â'r posibilrwydd hefyd o doriadau pellach i Gyllideb Cymru. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i ddod o hyd i £3.5 biliwn o arbedion adrannol pellach yn 2019-20 ond ni chyhoeddwyd sut y byddai'r toriadau hyn yn cael eu gweithredu, na beth fydd y goblygiadau i setliad Cymru. Os bydd y toriadau hyn yn mynd yn eu blaen, gallai arwain at ostyngiad ychwanegol o £150m yng nghyllideb Llywodraeth Cymru yn 2019-20.
5. Dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol yn ddiweddar fod Cymru'n wynebu cyfnod eithriadol o un ar ddeg mlynedd neu fwy o gwtogi ar wariant ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'r Swyddfa Cyfrioldeb Cyllidebol wedi nodi nifer o'r pwysau sy'n debygol o gael effaith negyddol ar gyllid cyhoeddus y DU yn y tymor hwy. Mae'r rhain yn cynnwys poblogaeth ddibynnol sy'n cynyddu ac sy'n cyfrannu tuag at wariant uwch ar bensiynau, gofal cymdeithasol ac iechyd.

- Hyd nes y cyhoeddir Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU ar 23 Tachwedd, prin fu'r arwyddion ynglŷn â bwriadau Llywodraeth y DU o ran polisi cyllidol ac ariannol. Mae'r Canghellor wedi dweud yn glir nad yw'r cyfnod o gyntaf wedi dod i ben a'i bod sicrhau gwarged yn y gyllideb yn parhau i fod yn amcan, ond mae'n debygol y bydd hi'n broses arafach na'r hyn a nodwyd yng Nghyllideb y DU ym mis Mawrth 2016. Mae'r Canghellor wedi ceisio lleihau'r disgwyliadau y bydd Datganiad yr Hydref yn cynnwys gwariant ychwanegol sylweddol ar seilwaith.

Goblygiadau yn sgil refferendwm yr UE

- Mae Cymru yn cael £650m y flwyddyn o gronfeydd yr UE ar hyn o bryd, sy'n cefnogi datblygiad economaidd, cymdeithasol a gwledig. Mae'r Prif Weinidog wedi croesawu'r cadarnhad diweddar gan y Canghellor y bydd y Trysorlys yn rhoi gwarant lawn gydol oes ar gyfer yr holl brosiectau strwythurol a buddsoddi sydd wedi cael eu cymeradwyo cyn i'r DU ymadael â'r UE.
- Mae cronfeydd yr UE yn ffynhonnell fuddsoddi bwysig i Gymru a byddwn yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar bob ceiniog a gawn o Ewrop. Byddwn hefyd yn parhau i gyflwyno dadl gref a chadarnhaol y dylai Cymru gael ei chyfran deg o gyllid ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, yn unol â'n haddewid yn ymgyrch y refferendwm.
- Yn yr hirdymor, bydd canlyniadau penderfyniad refferendwm yr UE yn ail-lunio ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn parhau i weithio i gael mwy o sicrwydd ynglŷn â dyfodol ffrydiau ariannu pwysig yr UE.
- Rwy'n cadeirio'r Grŵp Cyngori ar Ewrop sy'n darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar yr heriau a'r cyfleoedd posibl sy'n codi yn sgil ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Bydd hefyd yn ystyried sut y gall Cymru barhau i weithio'n gadarnhaol gydag Ewrop.
- Mae'r Grŵp Cyngori yn dod â phobl gyda phrofiad a dealltwriaeth fanwl o faterion Ewropeaidd ynghyd, gan gynnwys Aelodau o Senedd Ewrop, arweinwyr busnes a chynrychiolwyr o brifysgolion, colegau, undebau llafur, y byd amaeth, gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector.

Cyllideb Cymru 2017-18 – ystyriaethau allweddol

- Mae cynllun pum mlynedd Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen, a gyhoeddwyd fis diwethaf yn nodi sut y byddwn yn darparu mwy o swyddi o ansawdd gwell drwy economi gryfach a thecach; yn gwella a diwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn adeiladu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy.

13. Mae Symud Cymru Ymlaen wedi bod yn ganolog i'n gwaith o baratoi'r Gyllideb a sut y gall ein Cyllideb ategu a chefnogi ein blaenoriaethau yn y tymor byr a'r tymor hwy yn wyneb ansicrwydd ariannol. Un o'r ystyriaethau allweddol oedd sut y gallwn ddarparu sefydlogrwydd ar gyfer ein gwasanaethau craidd a gwneud cynnydd pendant o ran Symud Cymru Ymlaen.
14. O gofio'r ansicrwydd economaidd rydym yn ei wynebu ar ôl refferendwm yr UE, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn cynnal ein record gref o fuddsoddi yn ein seilwaith economaidd a chymdeithasol fel arf i hybu twf economaidd. Rydym eisiau Cymru sy'n ffyniannus ac yn ddiogel. Rydym eisoes wedi cyhoeddi nifer o fuddsoddiadau er mwyn darparu mwy o swyddi o ansawdd gwell drwy economi gryfach a thecach.
15. Mae Cronfa Fusnes Cymru yn golygu y gall Busnesau Bach a Chanolig Cymru gael gafael ar hyd at £136m o gymorth ariannol dros y saith mlynedd nesaf, gan sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i ddatblygu eu marchnadoedd cartref ac i gystadlu'n rhyngwladol. Bydd y cymorth hwn yn cael ei ategu drwy sefydlu Banc Datblygu ar gyfer Cymru.
16. Ym mis Medi cyhoeddais ein bod yn ymestyn ein Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach ar gyfer 2017-18, gyda chynllun newydd parhaol yn dod i rym yn 2018, ac rydym yn ystyried sut y caiff y rhyddhad hwn ei ddarparu i gefnogi busnesau bach yn y tymor hwy.
17. Cronfa fuddsoddi gwerth £1.2 biliwn a gaiff ei chyflwyno dros gyfnod o 20 mlynedd yw Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n dod â deg awdurdod lleol ynghyd ac sy'n cynnwys buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Disgwylir i'r Fargen greu hyd at 25,000 o swyddi newydd a denu buddsoddiad ychwanegol o £4 biliwn o'r sector preifat. Rydym yn gweithio tuag at fargen ar gyfer Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, yn ymestyn o Sir Benfro i Gastell-nedd Port Talbot a bargaen twf ar gyfer Gogledd Cymru i helpu i wella'r economi.
18. Mae Symud Cymru Ymlaen hefyd yn nodi ein blaenoriaethau cyfalaf, sef atebion trafnidiaeth integredig, megis Metro De Cymru a ffordd liniaru ar gyfer yr M4, ynghyd â pharhau â'n cynlluniau i ddarparu mwy o adeiladau ysgol o'r radd flaenaf a sicrhau 20,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol.
19. Caiff ein gwariant cyfalaf traddodiadol, wedi'i ategu gan gyllid trafodion ariannol hwb ychwanegol gan lif o gynlluniau cyllid arloesol sy'n darparu buddsoddiad ychwanegol mewn seilwaith economaidd a chymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys troi'r A465 yn ffordd ddeuol, canolfan ganser arbenigol yn Ysbyty Felindre a symud rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn ei blaen.

20. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru i ddarparu cyngor arbenigol annibynnol ar strategaeth fwy gwybodus a thymor hwy o ran buddsoddi mewn seilwaith dros gyfnod o 5 i 30 mlynedd.

Pwyntiau trafod

21. Mae'r cyfarfod yn rhoi'r cyfle i'r grŵp wneud sylwadau ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18. Byddem hefyd yn croesawu pe baech yn ystyried sut y gallwn gydweithio i ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau wrth ddarparu economi gref i Gymru a chanlyniadau cadarnhaol i bobl Cymru, yn yr hinsawdd ariannol bresennol ac ar ôl ymadael â'r UE.